# Gwybodaeth Ychwanegol at Atebion Gweinidogion

## Gwybodaeth ychwanegol at OAQ0060(HSS) a gyhoeddwyd gan Brian Gibbons, y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, 2 Chwefror 2005.

**At Kirsty Williams:**

Cytunodd y Prif Weinidog, yn ystod y cyfarfod llawn ar 2 Chwefror, i ysgrifennu atoch ynglŷn â'r oedi posibl gyda thriniaeth i gleifion yng Nghymru sy'n cael eu cyfeirio i Ysbyty Sirol Henffordd, oherwydd y trefniadau newydd rhwng yr ysbyty a Bwrdd Iechyd Lleol (BILl) Powys.

Fel y byddwch yn sylweddoli, penderfyniad a chyfrifoldeb comisiynwyr yng Nghymru yw sicrhau bod cleifion yng Nghymru yn cael triniaeth, boed yng Nghymru neu yn Lloegr, o fewn y targedau amserau aros hiraf ar gyfer Cymru, neu unrhyw amserau byrrach y gall comisiynwyr yng Nghymru eu cytuno ar gyfer eu cleifion. Felly, nid oeddwn yn rhan o drafodaethau rhwng BILl Powys ac Ymddiriedolaeth GIG Ysbytai Henffordd ynglŷn â pharhau triniaeth i gleifion o Gymru yn yr Ymddiriedolaeth honno. Deallaf, fodd bynnag, fod y mater erbyn hyn wedi ei ddatrys yn foddhaol rhwng y ddau Brif Swyddog Gweithredol yn lleol.

Mae'r mwyafrif helaeth o gleifion o Bowys sy'n cael triniaeth yn Lloegr eisoes hyn cael eu gweld o fewn y targed uchaf o 12 mis. Deallaf hefyd fod BILl Powys ar y trywydd cywir i allu cydymffurfio â'r targed amserau aros o 12 mis ar gyfer ysbytai eraill, ac y mae'n brysur iawn yn comisiynu er mwyn sicrhau'r budd mwyaf posibl i gleifion Powys yn unol â'i gyfrifoldebau fel Bwrdd Iechyd Lleol.